

Adolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4988A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno	
Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn	4
Ein dyletswyddau archwilio	4
Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn	4
Pam fod cynaliadwyedd ariannol yn bwysig	4
Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut y mae da'n edrych	4
Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni'r archwiliad	6
Yr hyn a ganfuom	6
Ein hargymhellion i'r Awdurdod	8
Atodiadau	
Atodiad 1 – cwestiynau a meini prawf archwilio	9

Adroddiad cryno



Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn

Ein dyletswyddau archwilio

- 1 Rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yr Awdurdod) sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian ar gyfer yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol fod wedi'i argyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.
- 2 Fe gynhaliom ni'r archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

- 3 Darparu sicrwydd bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol i ategu ei gynaliadwyedd ariannol.
- 4 Egluro sefyllfa ariannol yr Awdurdod a'r pwysau allweddol ar ei gyllideb a'r risgiau allweddol i'w gynaliadwyedd ariannol.



Pam fod cynaliadwyedd ariannol yn bwysig

- 5 Mae cyfuniad o ffactorau gan gynnwys cost gynyddol darparu gwasanaethau a galw uwch am rai gwasanaethau'n gosod pwysau sylweddol ar gyllid llywodraeth leol.
- 6 Er gwaethaf y pwysau hyn, mae'n dal yn ofynnol i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (APCau) bennu cyllideb fantoledig gan hefyd gyflawni dyletswyddau statudol a llythyr cylch gwaith tymor y llywodraeth. Mae APCau hefyd yn darparu ystod o wasanaethau anstatudol y mae cymunedau'n dibynnu arnynt.
- 7 Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod APCau'n datblygu dull strategol o ymdrin â'u cynaliadwyedd ariannol dros y tymor hwy, i'w helpu i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio eu hadnoddau.



Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut y mae da'n edrych¹

- 8 Fe wnaethom adolygu dull strategol yr Awdurdod o ategu ei gynaliadwyedd ariannol, ei ddealltwriaeth am ei sefyllfa ariannol gyfredol, a'i drefniadau i adrodd ar gynaliadwyedd ariannol a'i oruchwyllo. Roedd yr archwiliad hwn yn gyfyngedig i ystyried y trefniadau y mae'r Awdurdod wedi'u sefydlu i ategu ei gynaliadwyedd ariannol. Nid adolygiad o drefniadau rheoli ariannol ehangach yr

¹ A ddiffinnir fel 'yr hyn a ddylai fod' yn ôl deddfau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwyllir' yn ôl arfer gorau, neu 'yr hyn a allai fod', pe bai'r amodau'n well.

Awdurdod ydoedd, nac o'r penderfyniadau ariannol unigol y mae'r Awdurdod wedi eu gwneud neu'n bwriadu eu gwneud.

- 9 Rydym yn cydnabod y bydd rhai ffactorau a fydd yn effeithio ar gynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod y tu hwnt i gwmpas yr archwiliad hwn, gan bod yr archwiliad hwn wedi canolbwyntio ar y trefniadau y mae'r Awdurdod yn eu sefydlu. Gall ffactorau gynnwys swm, ac amseriad, y cyllid y trefnir ei fod ar gael i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru.
- 10 Rydym hefyd yn cydnabod yr heriau ariannol digynsail y mae cyrff cyhoeddus wedi bod yn eu hwynebu am nifer o flynyddoedd ac yn debygol o barhau i'w hwynebu am o leiaf y tymor canolig. Mae hyn yn cynnwys y pwysau o ran cyllid yn y sector cyhoeddus a ddaeth yn dilyn yr argyfwng ariannol yn 2008 ac effaith y pandemig ar y pryd a'i ôl-ffeithiau parhaus. Yn fwy diweddar, mae APCau hefyd wedi wynebu gostyngiadau sylweddol mewn termau real yn eu gallu i wario o ganlyniad i'r cynnydd cyflymaf mewn chwyddiant am ddegawdau. Ochr yn ochr â'r holl ddigwyddiadau hyn, bu newidiadau yn y galw am rai gwasanaethau hefyd. Mae'r ffactorau hyn y tu hwnt i reolaeth unrhyw APC unigol i raddau helaeth.
- 11 Yn erbyn y cefndir tymor hwy yma o heriau ariannol bu angen i APCau ymateb yn gyflym i heriau mwy diweddar. Rydym yn deall, yn anrffod, nad yw rhai o'r manylion penodol o ran sut y byddir yn mynd i'r afael â phwysau ariannol dros y tymor canolig wedi cael eu pennu eto. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein barn ni ynglŷn â threfniadau ariannol yr Awdurdod a, lle y bo'n briodol, ble y dylid cryfhau'r rhain yn ein tyb ni i helpu i wella cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod dros y tymor canolig. Dylid ystyried ein hadroddiad yng nghyd-destun y pwysau ariannol ehangach a thymor hwy hyn.
- 12 Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol – **A oes gan yr Awdurdod drefniadau priodol i ategu ei gynaliadwyedd ariannol?** I wneud hyn, roedd ein sylw ar gael atebion i'r cwestiynau canlynol:
- A oes gan yr Awdurdod strategaeth eglur ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor?
 - A yw strategaeth ariannol yr Awdurdod wedi'i hategu gan ddealltwriaeth eglur am ei sefyllfa ariannol?
 - A yw trefniadau adrodd yr Awdurdod yn ategu goruchwyliaeth reolaidd ar ei gynaliadwyedd ariannol?
- 13 Caiff y meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i asesu trefniadau'r Awdurdod yn erbyn pob un o'n cwestiynau eu nodi yn **Atodiad 1**. Goleuwyd hyn gan ein gwybodaeth gronnus, yn ogystal â thynnu ar rai cyhoeddiadau a gynhyrwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).



Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni'r archwiliad

- 14 Mae ein canfyddiadau'n seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gydag uwch swyddogion a Chadeirydd yr Awdurdod. Cyfarfuom hefyd gyda

swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am APCau. Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i defnyddio i oleuo ein canfyddiadau'n gyfyngedig i'r ffynonellau hyn. Fe wnaethom ni'r gwaith yma rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2025.



Yr hyn a ganfuom

- 15 Ar y cyfan, canfuom fod **yr Awdurdod yn deall bod ei sefyllfa ariannol yn anghynaliadwy oni bai y cymerir camau gweithredu, ond nad yw wedi ymdrin â hi eto**. Rydym yn nodi isod pam y daethom ni i'r casgliad hwn.
- 16 Mae'r Awdurdod yn deall nad yw ei sefyllfa ariannol yn gynaliadwy ond nid yw wedi gweithredu i ymdrin â hi. Mae swyddogion wedi mynegi'n glir bod gan yr Awdurdod ddiffyg strwythurol y mae angen ymdrin ag ef. Mae'r Awdurdod wedi rhagweld y bydd y cynnydd o 5% yng Ngrant y Parc Cenedlaethol yn 2025-26 yn arwain at ddiffyg o £0.8 miliwn yn ei gyllideb refeniw ar gyfer 2025-26. Mae hyn yn 15% o'i gyllideb refeniw yn 2025-26. Mae cyllid refeniw ychwanegol gan Lywodraeth Cymru dros y blynyddoedd diwethaf wedi helpu'r Awdurdod i raddau helaeth i ariannu costau unioni'r diffyg. Fodd bynnag, gan nad oes sicrwydd y bydd yn cael y cyllid hwn mewn blynyddoedd yn y dyfodol, nid yw'n gynaliadwy bod yr Awdurdod yn dibynnu arno. Mae'r Awdurdod hefyd yn dibynnu ar y cyllid grant ychwanegol i osgoi defnyddio ei gronfeydd ariannol wrth gefn.
- 17 Roedd gan yr Awdurdod £2.7 miliwn o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy na chyfyngid arnynt yn gyfreithiol ar ddiwedd 2023-24². Roedd hyn yn 58% o wariant net yr Awdurdod yn 2023-24. Mae cronfeydd wrth gefn yn cronni fel arfer lle nad yw cyllid yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, gallai hyn fod am bod cyllid wedi cael ei ddyfarnu'n hwyr yn y flwyddyn neu fod costau disgwyledig yn is na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer. Mae swyddogion wedi datgan yn glir nad yw effaith y diffyg ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn gynaliadwy. Y rheswm dros hyn yw bod ei gronfeydd wrth gefn yn weddol fach o ran cyfanswm eu maint, er eu bod yn weddol uchel fel cyfran o wariant net. O ganlyniad, gall pwysau sylweddol nas rhagwelwyd o ran costau, megis ymglyfreithiad neu ddifrod i eiddo, ddihysbyddu cronfeydd wrth gefn yn sylweddol.
- 18 Mae dealltwriaeth gynhwysfawr am bwysau o ran cyllid a risgiau ariannol yn bwysig i helpu i ddatblygu strategaeth ariannol sy'n seiliedig ar wybodaeth dda. Mae hefyd yn helpu strategaeth i ymateb i faint yr her a wynebier. Mae'r Awdurdod wedi dangos yn ei adroddiadau i'r aelodau ei fod yn amlwg yn ymwybodol o'i sefyllfa, megis yn ei ddadansoddiad o sensitifrwydd. Fodd bynnag, nid yw wedi cymryd camau i ymdrin â hi. Ceir risg i'w gynaliadwyedd ariannol yn y tymor canolog a hir.

² Mae ein diffiniad ni o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n wahanol i un yr Awdurdod. I gael rhagor o wybodaeth a chyd-destun gweler yr [Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol](#).

- 19 Nid oes gan yr Awdurdod ddull eglur i ymdrin â'r bwlch a ragwelir ganddo yn ei gyllideb nac i wella ei gynaliadwyedd ariannol. Mae'r Awdurdod yn cynllunio ei gyllideb yn flynyddol ac nid oes cynllun ariannol tymor canolig ganddo. Mae hyn yn arwain at ffocws byrdymor yn ei brosesau cynllunio ariannol. Mae wedi adnabod rhai arbedion posibl i leihau ei ddiffyg ond mae ar adeg gynnar o ran eu hystyried. Mae hyn yn golygu nad yw'r Awdurdod wedi mesur maint arbedion eto na'u heffaith ar ei amcanion llesiant a'i ddyletswyddau statudol. Mae'r Awdurdod wedi dechrau ystyried ffyrdd eraill o godi arian, ond nid yw'n glir iddo o faint na pha mor fuan y bydd hyn yn gwella ei sefyllfa ariannol. Rydym yn cydnabod bod cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru mewn blynyddoedd blaenorol wedi lleihau'r angen i'r Awdurdod weithredu i wella ei gynaliadwyedd ariannol tymor hwy. Fodd bynnag, nid yw'n gynaliadwy bod yr Awdurdod yn dibynnu ar y cyllid hwn mewn blynyddoedd yn y dyfodol.
- 20 Mae strategaeth ariannol gytunedig sy'n eglur ac yn seiliedig ar wybodaeth dda'n bwysig i adnabod sut y bydd yr Awdurdod yn ymateb i bwysau o ran cyllid a ragwelir yn y dyfodol, yn enwedig sut y bydd yn ariannu ei ddiffyg rhagamcanol yn y tymor byr, canolig a hir. Heb strategaeth, mae'n anodd i'r Awdurdod fod â sicrwydd y bydd yn ymdrin â'i ddiffyg mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio ac a reolir yn dda a fydd yn sicrhau gwerth am arian. Mae hefyd yn cynyddu'r risg o benderfyniadau byrdymor nad ydynt yn darparu gwerth am arian dros y tymor hwy.
- 21 Mae'r Awdurdod yn cynorthwyo aelodau i ddeall y sefyllfa ariannol gyda mecanweithiau eglur ar gyfer adrodd. Mae gan aelodau'r cyfle hefyd i roi eu barn ynglŷn â sefyllfa ariannol yr Awdurdod, a chael mwy o ddealltwriaeth amdani, trwy weithgor aelodau anffurfiol gydag uwch swyddogion.
- 22 Mae adrodd eglur a rheolaidd yn bwysig i alluogi goruchwyllo a chraffu effeithiol ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod i ddigwydd, ac i alluogi camau gweithredu effeithiol i gael eu cymryd i wella ei gynaliadwyedd ariannol. Fodd bynnag, heb weithredu i ymdrin â'r materion a amlygir mewn adroddiadau ariannol, dim ond i raddau cyfyngedig y gallant helpu i wella cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod.



Ein hargymhellion i'r Awdurdod

Arddangosyn 1: ein hargymhellion i'r Awdurdod

Argymhellion

- A1 Dylai'r Awdurdod fynd ati ar frys i sefydlu trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig i bennu a nodi sut y bydd yn ymdrin â'r bwlch a ragwelir ganddo yn ei gyllideb (**Paragraffau 19 a 20**). Dylai hyn gynnwys:
- 1.1 ystyried effaith gwahanol opsiynau ar ei amcanion llesiant a'i ddyletswyddau statudol; a hefyd
 - 1.2 trefniadau i fynd ati'n rheolaidd i oruchwyllo cynlluniau ariannol a chraffu arnynt, a'r cynnydd o ran eu rhoi ar waith i ymdrin â'r bwlch yn y gyllideb a ragwelir gan yr Awdurdod.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Arddangosyn 2: cwestiwn cyffredinol: A oes gan yr Awdurdod drefniadau priodol i ategu ei gynaliadwyedd ariannol?

Cwestiynau Lefel 2	Meini Prawf
A oes gan yr Awdurdod strategaeth eglur ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor?	- Mae'r Awdurdod wedi nodi'n glir beth yw ei ddull strategol i ategu ei gydnerthedd ariannol dros y tymor byr, canolig a hir. - Mae gan yr Awdurdod gynllun ariannol tymor canolig. - Mae dull strategol yr Awdurdod yn cael ei ddeall a'i gefnogi'n eang gan aelodau ac uwch swyddogion. - Mae'r Awdurdod wedi ystyried ystod eang o opsiynau i wella ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor, gan gynnwys trwy gymharu â chyrff eraill. - Mae'r Awdurdod wedi adnabod yr holl arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud i gau ei fwlch o ran cyllid dros y tymor canolig, gyda chymorth cynlluniau a oleuwyd gan dystiolaeth dda sy'n seiliedig ar dybiaethau rhesymol. - Mae strategaeth yr Awdurdod yn cynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn mewn modd strategol i reoli ei raglen arbedion dros y tymor canolig. - Mae'r Awdurdod wedi modelu effaith ddisgwyliedig ei strategaeth ariannol dros y tymor canolig (e.e. gostyngiadau posibl mewn gwasanaethau a lefelau ardollau'r Awdurdod ar brif gynghorau).
A yw strategaeth ariannol yr Awdurdod wedi'i hategu gan ddealltwriaeth glir am ei sefyllfa ariannol?	- Mae'r Awdurdod wedi cyfrifo'r bwlch yn ei gyllid dros y tymor byr a chanolig yn seiliedig ar dybiaethau rhesymol. - Mae'r Awdurdod wedi meincnodi ei dybiaethau gyda chyrff sy'n gymaryddion priodol. - Mae gan yr Awdurdod ddealltwriaeth dda am y pwysau allweddol ar ei gyllideb yn y tymor canolig a hir. - Mae gan yr Awdurdod hanes o ymdrin yn llwyddiannus â phwysau allweddol ar y gyllideb. - Mae'r Awdurdod wedi adnabod y risgiau allweddol i'w gynaliadwyedd ariannol ac mae wedi sefydlu mesurau lliniaru.

Cwestiynau Lefel 2	Meini Prawf
A yw trefniadau adrodd yr Awdurdod yn ategu goruchwyliaeth reolaidd ar ei gynaliadwyedd ariannol?	• Mae'n glir pwy sy'n gyfrifol am fonitro sefyllfa ariannol yr Awdurdod, gan gynnwys ei gynaliadwyedd dros y tymor canolig a hir. • Mae'r Awdurdod yn adrodd yn rheolaidd ar ei sefyllfa ariannol wrth aelodau i alluogi goruchwyliaeth a chraffu i ddigwydd. Mae gan yr Awdurdod drefniadau i adrodd yn dryloyw ar effaith wirioneddol/effaith ddisgwyliedig ei strategaeth ariannol ar gyflawni ei amcanion corfforaethol wrth aelodau a rhanddeiliaid eraill a'r cymunedau lleol. • Mae cynllun arbedion yr Awdurdod yn cynnwys yr hyn a gytunwyd, faint o gynnydd a wnaed o ran ei roi ar waith a chysylltiadau â'i gyllideb a'i gynllun ariannol tymor canolig. • Mae'r Awdurdod yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd o ran cyflawni arbedion wedi'u cynllunio wrth aelodau i alluogi goruchwyllo a chraffu i ddigwydd.



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.